Inspection of Youth Offending
Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

# Datganiad i'r Wasg

Ffôn: Ymholiadau gan y cyfryngau: 020 7035 2123
**Arolygiaeth Prawf EM** • Ail Lawr • Ashley House • 2 Monck Street • Llundain • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
Ebost: HMIP.enquiries@hmiprobation.gsi.gov.uk • www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation/

**Arolygiad annibynnol o waith gyda throseddwyr ifanc**

Criminal Justice Joint Inspection
Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

13 Medi 2010

**EMBARGO TAN 00:01 – DYDD MERCHER, 15 MEDI 2010**

**CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGIAD**
**Arolygiad o waith Troseddwyr Ifanc yn ardal Caerdydd**

Cyhoeddwyd adroddiad yr arolygiad diweddaraf o waith Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr heddiw.

Yn ôl Alan MacDonald, Y Prif Arolygydd Cynorthwyol:

> "Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc yng Nghaerdydd ei gynnal fel rhan o'r rhaglen Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi ystyried pa mor aml y cafodd yr agweddau hynny ar y gwaith sy'n ymwneud â Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu eu cyflawni i safon ddigon uchel.
>
> "Daethom i'r casgliad fod agweddau Diogelu'r gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 72% o'r amser. O ran yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau *Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill* ei wneud yn ddigon da 73% o'r amser, a chafodd y gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 78% o'r amser. Ceir dadansoddiad manylach o'n canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a cheir crynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir edrych ar y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein canfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr gyfartalog ar gyfer gwaith *Diogelu* oedd 64%, gyda'r sgorau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr gyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* oedd 60%, gyda'r sgorau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr gyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* oedd 66%, gyda'r sgorau'n amrywio rhwng 50–82%.
>
> "Gwelsom dîm lle'r oedd y staff wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael eu goruchwylio ganddynt. Roedd y

gwaith yn elwa ar gyfraniadau cadarnhaol nifer o wahanol asiantaethau partner sydd wedi eu lleoli ar yr un safle.

“Er hyn, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod cynlluniau rheoli risg a statws agored i niwed o ansawdd da’n cael eu cynhyrchu a’u gweithredu ym mhob achos perthnasol.

“Ar y cyfan, credwn fod y canfyddiadau hyn yn rhai calonogol iawn. Mae’n edrych yn debygol iawn y bydd Tîm Troseddwyr Ifanc Caerdydd, dan arweiniad y tîm rheoli, yn ymateb i’r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn ac yn gwella rhagor ar y gwasanaethau a gynigir ganddynt.”

**NODIADAU I OLYGYDDION**

1. Mae’r adroddiad ar gael yn www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation/
2. Dechreuodd y rhaglen hon o Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc ym mis Ebrill 2009. Bydd gwaith Troseddwyr Ifanc ym mhob un o’r 157 o ardaloedd sydd yng Nghymru a Lloegr yn cael ei arolygu dros gylch o dair blynedd.
3. Gellir cysylltu ag Alan MacDonald yn alan.macdonald@hmiprobation.gsi.gov.uk ac ar 07766 161554.